Prifysgol Wrecsam
Wrexham University

# HYSBYSIAD PREIFATRWYDD AR GYFER MYFYRWYR AC YMGEISWYR PRIFYSGOL WRECSAM

Mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn berthnasol i fyfyrwyr cyfredol a chyn-fyfyrwyr ac ymgeiswyr. Mae'n egluro sut y byddwn ni'n prosesu eich data personol. Dyw'r hysbysiad hwn ddim yn ffurfio rhan o unrhyw gontract myfyriwr neu ymgeisydd.

**Pa wybodaeth rydym yn ei dal?**

Rydym yn dal amrywiaeth o ddata personol amdanoch chi, gyda pheth ohono'n cael ei ddarparu gennych yn uniongyrchol a pheth ohono yn cael ei dderbyn gennym gan drydydd partïon.

**Dyma rai enghreifftiau o fathau o ddata personol rydym yn ei ddal:**

- eich manylion cyswllt
- profiad addysgol blaenorol a chyrhaeddiad
- gwybodaeth am fewnfudo (megis manylion pasbort a hyfedredd iaith)
- lle mae'n berthnasol, gwybodaeth am iechyd (gan gynnwys unrhyw anableddau) a data monitro arall rydych chi'n ei ddarparu i ni

**Yn ogystal, os byddwch yn dod i astudio gyda ni, byddwn yn dechrau cadw data megis:**

- perfformiad academaidd

- presenoldeb a chynnydd

- os yw'n berthnasol, unrhyw achosion o dorri ein polisïau (megis camymddwyn academaidd neu unrhyw gamymddwyn arall sy'n ymwneud â gweithgareddau'r Brifysgol)

- Data lleoliad a mewngofnodi a gasglwyd drwy fewngofnodi ar WIFI Eduroam y Brifysgol yn adeiladau'r campws, gan gynnwys gofodau addysgu a dysgu ac ardaloedd cyhoeddus.

- Data enw defnyddiwr a gasglwyd drwy fewngofnodi ar WIFI Eduroam y Brifysgol yn adeiladau'r campws, gan gynnwys gofodau addysgu a dysgu ac ardaloedd cyhoeddus. Caiff hwn ei gasglu ar gyfer cefnogi'r system Profi ac Olrhain y GIG yn unig, ac fe'i cedwir am gyfnod cyfyngedig o amser.

- Gwybodaeth am iechyd lle mae myfyriwr naill ai'n hunan-adrodd am symptomau o afiechydon heintus e.e. Covid 19 neu Glwy'r Pennau, neu lle caiff y Brifysgol ei hysbysu gan Iechyd Cyhoeddus Cymru neu gyrff y GIG.

- Byddwn yn prosesu presenoldeb corfforol ac yn monitro'r rhai nad ydynt yn gallu mynychu oherwydd cyfyngiadau personol neu genedlaethol sydd yn eu lle yn sgil digwyddiadau iechyd byd-eang.

Rydym hefyd yn prosesu manylion cyswllt ac addysgol wedi i chi roi'r gorau i fod yn fyfyriwr gyda ni.

## Sut ydym yn ei ddefnyddio a pham?

Pan rydych chi'n ymgeisydd, byddwn yn prosesu eich data personol at bwrpas asesu eich cymhwystra i gael cynnig lle ar un o'n rhaglenni academaidd ac ar gyfer adnabod unrhyw anghenion cefnogi a allai fod gennych.

Os ydych chi'n derbyn lle ar gwrs a/neu'n cofrestru fel myfyriwr yn y Brifysgol, rydym yn prosesu eich data personol at bwrpas darparu ein rhaglenni academaidd a gwasanaethau cysylltiedig, megis cefnogi lles.

Yn gyffredinol, mae hyn yn berthnasol i'r data personol rydych chi'n ei ddarparu i ni er mwyn prosesu eich cais, ac, os ydych yn cofrestru, er mwyn monitro perfformiad academaidd. Heb yr wybodaeth yma, ni fyddem yn gallu eich darparu gyda'r rhaglen academaidd o'ch dewis a gwasanaethau cefnogi perthnasol.

Rydym yn talu sylw i sut rydych chi'n rhyngweithio gyda ni ac mae'n bosib y byddwn yn cofnodi'r wybodaeth yma. Er enghraifft, p'un a ydych chi'n agor neu'n clicio ar eich ebyst, eich rhyngweithiadau gyda chyfrifon cyfryngau cymdeithasol sy'n cael eu rhedeg gan y Brifysgol, ac â beth rydych chi'n ymweld ar ein gwefannau gan ddefnyddio'r wybodaeth yma i bersonoli unrhyw ryngweithiadau yn y dyfodol.

Mae peth data personol hefyd yn angenrheidiol er mwyn cyflawni ein hymrwymiad cyfreithiol ynghylch bod yn Noddwr Myfyriwr i fyfyrwyr rhyngwladol. Gallai methu â darparu'r wybodaeth honno amharu ar eich cais ar gyfer fisa myfyriwr.

Rydym ond yn prosesu data at ddiben penodol ac os yw wedi'i gyfiawnhau yn unol â chyfraith gwarchod data. Mae'r tabl isod yn rhestru enghreifftiau o ddata personol rydym ni'n ei brosesu a'r cyfiawnhad dros wneud hynny.

| **DIBEN DEFNYDDIO DATA A CHYFIAWNHAD** | | |
|---|---|---|
| **Diben** | **Sail Gyfreithiol** | **Cyfiawnhad** |
| Mae defnyddio data gan bartneriaid sy'n ymgeisio (gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i UCAS) gan ymgeiswyr sy'n dymuno astudio ym Mhrifysgol Wrecsam | • Contract | Mae ymgeiswyr angen i bartneriaid ymddiriedig drosglwyddo gwybodaeth i sefydliadau at ddiben asesu ceisiadau. |
| Asesu cymhwystra i ymgymryd â'n rhaglenni academaidd | • Caniatâd<br>• Contract | Mae caniatâd a/neu brosesu yn angenrheidiol at ddiben cymryd camau cyn mynd i mewn i gontract gyda ni |
| Trosglwyddo manylion ymgeisydd i golegau partner at ddiben ymrestru ar raglenni sylfaen neu gyn-feistr | • Caniatâd | Mae angen caniatâd cyn i ni drosglwyddo eich data i golegau partner. |
| Darparu rhaglenni academaidd a gwasanaethau cysylltiedig (gan gynnwys gwasanaethau TG a Llyfrgell) | • Contract | Angenrheidiol ar gyfer gweithredu contract - mewn geiriau eraill er mwyn darparu'r rhaglen academaidd o'ch dewis. Gall hyn fod yn gontract gyda ni neu'n gontract rhyngoch chi a'r sefydliad rydych chi'n anfon ato. Mae hyn yn cael ei alw'n rheidrwydd cytundebol. |
| Monitro eich defnydd o'n rhwydweithiau er mwyn gwarchod diogeledd ac uniondeb rhwydwaith TG, gwybodaeth a systemau cyfathrebu electronig y Brifysgol | • Contract | Rheidrwydd cytundebol |
| | • Contract | Rheidrwydd cytundebol. |

| | | |
|---|---|---|
| Asesu cynnydd a pherfformiad academaidd (gan gynnwys presenoldeb). | | |
| Cefnogi archwiliadau i uniondeb cyfraniadau ac asesiadau myfyrwyr<br>e.e. pennu gwreiddioldeb gwaith a asesir, defnyddio gwasanaethau 3ydd parti er mwyn darparu datrysiadau neu atebion ar ran myfyrwyr. | • Contract | Rheidrwydd cytundebol. |
| Gweithredu prosesau a threfniadau diogelwch, disgyblu, cwyno a sicrwydd ansawdd | • Contract | Rheidrwydd cytundebol. |
| Monitro eich cydymffurfio gyda pholisïau Prifysgol a'ch ymrwymiadau cytundebol a chyfreithiol eraill | • Contract | Rheidrwydd cytundebol. |
| Cydymffurfiaeth mewnfudo. Os ydych angen fisa myfyriwr er mwyn astudio yn y DU, byddwn angen prosesu eich data at bwrpasau sy'n gysylltiedig gyda mewnfudo a cheisiadau fisa. Pan wnaethoch dderbyn cynnig gan Brifysgol Wrecsam, byddem wedi prosesu eich gwybodaeth er mwyn rhyddhau'r Cadarnhad Derbyn Astudiaethau (CAS) rydych ei angen er mwyn ymgeisio am fisa ac i gydymffurfio gyda'n hymrwymiadau cyfreithiol o dan ein trwydded Noddi Myfyrwyr. Mae'n bosib bod hyn wedi golygu rhannu eich data gyda Fisâu a Mewnfudo y DU (rhan o'r Swyddfa Gartref o fewn Llywodraeth y DU). Byddant yn ymgymryd â phrosesu tebyg mewn perthynas ag unrhyw gais y byddwch yn ei wneud i ymestyn eich fisa. O safbwynt y gwaith prosesu cychwynnol i ddosbarthu CAS, mae'n bosib y byddwn angen rhannu gwybodaeth gyda Fisâu ac Ymfudo'r DU er mwyn sicrhau gwybodaeth sy'n berthnasol i'ch cymhwystra i ymestyn cyfnod eich fisa. Ar gyfer estyniad fisa rydym hefyd angen prosesu gwybodaeth ariannol gan gynnwys cyfriflenni. Os yw eich rhesymau dros geisio estyniad yn cynnwys salwch a ddioddefwyd gennych, mae'n bosib y byddwn hefyd angen prosesu gwybodaeth am eich iechyd at y pwrpasau yma. | • Goblygiad au Cyfreithiol<br>• Budd y Cyhoedd | Mae'n angenrheidiol ein bod yn cydymffurfio gyda'n hymrwymiad cyfreithiol mewn perthynas â myfyrwyr neu ymgeiswyr sy'n dal fisa myfyriwr. Gallai prosesu o'r fath hefyd fod er budd y cyhoedd ac mae'n bosib y bydd angen eich caniatâd mewn rhai achosion. |

| | | |
|---|---|---|
| Gwneud addasiadau rhesymol ar gyfer anableddau a darparu cefnogaeth berthnasol i fyfyrwyr neu ymgeiswyr gyda salwch. | • Rhwymedigaeth Gyfreithiol | Mae'n angenrheidiol i ni gydymffurfio gyda'n hymrwymiad cyfreithiol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, ac ar gyfer sefydlu, ymarfer ac amddiffyn hawliadau cyfreithiol sy'n berthnasol i ddyletswydd gofal y Brifysgol tuag at fyfyrwyr a'i hymrwymiadau i gydymffurfio gyda Deddf Cydraddoldeb 2010. |
| Rheoli cymuned y Brifysgol (gan gynnwys delio gyda chamymddwyn o dan ein gweithdrefnau ar gyfer camymddwyn academaidd neu fathau eraill o gamymddwyn) | • Contract<br>• Diddordeb Cyfreithlon | Rheidrwydd cytundebol a'n diddordeb cyfreithlon mewn cynnal safonau academaidd. |
| Sicrhau bod ffïoedd yn cael eu talu | • Contract | Rheidrwydd cytundebol a'n diddordeb cyfreithlon yn sicrhau taliad ar gyfer y gwasanaethau rydym yn eu darparu. |
| Gwarchod ein heiddo a'n hasedau (er enghraifft drwy ddelio gyda chamymddygiad) | • Contract<br>• Buddiant Dilys | Rheidrwydd cytundebol ac angenrheidiol ar gyfer ein diddordeb cyfreithlon mewn diogelu ein heiddo a'n hasedau. |
| Gweithrediad camerâu cylch cyfyng gan gynnwys camerâu sy'n cael eu gwisgo ar y corff | • Rhwymedigaeth Gyfreithiol<br>• Tasg Gyhoeddus<br>• Buddiant Dilys | Mae gan y Brifysgol fuddiant dilys yn sicrhau bod ei heiddo a'i hasedau'n cael eu gwarchod.<br>Mae gan y Brifysgol ddyletswydd gofal cyfreithiol i sicrhau diogelwch ei staff, myfyrwyr ac ymwelwyr. |
| Darparu cyfleusterau TG a seilwaith priodol eraill, er enghraifft amgylchedd dysgu rhithiol, yn ogystal â datblygu systemau TG newydd | • Contract | Rheidrwydd cytundebol; diddordeb cyfreithlon i ddarparu seilwaith priodol er mwyn cefnogi darparu rhaglenni academaidd a gwasanaethau myfyrwyr cysylltiedig |
| Rheoli digwyddiadau iechyd a diogelwch gan gynnwys adrodd statudol ac atgyfeiriadau meddygol | • Rhwymedigaeth Gyfreithiol | Cydymffurfio gyda Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974 |
| Cyfathrebu gydag ymgeiswyr a myfyrwyr | • Contract | Rheidrwydd cytundebol |
| | • Caniatâd | Caniatâd |

| | | |
|---|---|---|
| Cynorthwyo ymgeiswyr a myfyrwyr i sicrhau llety preswyl/tai | | |
| Gweinyddu materion sy'n berthnasol i lety a reolir gan y Brifysgol, gan gynnwys ffïoedd, iechyd a diogelwch, arlwyo, glanhau a chynnal a chadw a gweithdrefnau disgyblu | • Contract | Rheidrwydd cytundebol. Mae'n bosib y bydd y gwasanaeth llety yn defnyddio cyfeiriadau e-bost personol at bwrpas cyfathrebu gyda myfyrwyr. |
| Y Gwasanaeth Gyrfaoedd a Chyflogadwyedd | • Contract | Manylion cyswllt, manylion rhaglen a gwybodaeth am gynnydd lle mae'n berthnasol er mwyn galluogi cyfleoedd a gynigir i fyfyrwyr gan Wasanaeth Gyrfaoedd a Chyflogadwyedd y Brifysgol. |
| Cynnig gwasanaethau buddiol sy'n canolbwyntio ar gyn-fyfyrwyr (er enghraifft digwyddiadau a gweminarau gydag arbenigwyr sy'n arwain y sector, cyfleoedd i rwydweithio, cyngor mentora a gyrfa, cyfleoedd i wirfoddoli a'r diweddariadau a'r newyddion diweddaraf gan y Brifysgol. | • Contract | Mae'n bwysig darparu gwasanaeth perthnasau gyda chyn-fyfyrwyr sydd o fudd i raddedigion newydd (hyd at 3 blynedd wedi graddio). |
| Y Gwasanaeth Archwilio Mewnol | • Buddiant Dilys | Mae'n angenrheidiol ar gyfer ein buddiant dilys wrth gynnal rheolaeth fewnol a/neu adnabod sut i atal ac archwilio twyll. |
| Darparu geirdaon ar gais | • Contract | Angenrheidiol ar gyfer perfformio contract cyflogaeth neu lle mae caniatâd wedi'i roi |
| Ymgymryd ag ymchwil a dadansoddi mewnol at ddibenion (ymchwil) anacademaidd gan gynnwys monitro perfformiad ac ansawdd ar lefel sefydliadol lle nad oes unrhyw draweffaith uniongyrchol ar destunau data. | • Buddiant Dilys | Buddiant dilys wrth sicrhau bod y Brifysgol yn gallu cael budd o'i staff a'i myfyrwyr drwy ddeall sut y maent yn cael eu heffeithio gan ei harferion a gweithredu gwelliant parhaus i'w pholisïau, prosesau a thechnolegau. |
| Cynnal arolygon addysgu a dysgu er mwyn galluogi'r Brifysgol i gynllunio addysgu, dysgu ac asesiad a chefnogaeth.<br>Mae'n bosib y bydd peth paru data o ran data categori anarbennig cyfranogwyr | • Caniatâd<br>• Buddiant Dilys | Buddiant dilys yn sicrhau bod y Brifysgol yn gallu rhoi budd i'w staff a myfyrwyr drwy ddeall sut maent yn cael eu heffeithio gan ei harferion a gweithrediad |

| | | |
|---|---|---|
| o systemau Prifysgol eraill, ond bod yr holl allbynnau yn rhai nad oes modd eu hadnabod. Ceisir caniatâd ar gyfer cynnwys unrhyw gategori arbennig. | | gwelliant parhaus i'w pholisïau, prosesau a thechnolegau. |
| Ymgymryd â dadansoddi ymgysylltu myfyrwyr er mwyn gallu adnabod cyfleoedd posib i gefnogi myfyrwyr gyda'u hastudiaethau, yn arbennig felly lle mae'r ymgysylltu yn ymddangos i fod yn isel, ac ar gyfer myfyrwyr sydd â fisâu myfyrwyr, er mwyn monitro ac adrodd ar ymgysylltiad fel sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith | • Contract<br>• Buddiant Dilys<br>• Rhwymedigaeth Gyfreithiol | Mae contract y Brifysgol gyda myfyrwyr yn creu dyletswydd gofal tuag at fyfyrwyr; gall tan-ymgysylltu ddynodi'r angen am fwy o gefnogaeth; gall y systemau dadansoddi hysbysu myfyrwyr eu bod yn tan ymgysylltu, ac mae'n bosib y dangosir i'r Brifysgol y gallai ymyriadau fod yn briodol.<br><br>Bydd angen i fyfyrwyr sydd â fisâu myfyrwyr ymgysylltu gyda'u hastudiaethau fel amod o'u fisa. Bydd methu â gwneud hynny yn golygu rhwymedigaeth statudol i adrodd wrth UKVI. |
| Cyflenwi manylion cyswllt i'r awdurdod treth y cyngor perthnasol yn y man preswylio cofrestredig at bwrpasau Cofrestru Treth y Cyngor. | • Rhwymedigaeth Gyfreithiol | Caiff caniatâd ei gasglu wrth ymrestru. Mae'n rhaid i fyfyrwyr nad ydynt yn dymuno rhoi caniatâd barhau i gofrestru at bwrpasau Treth y Cyngor gyda'r awdurdod lleol perthnasol |
| Cyflenwi manylion cyswllt i gynghorau at ddibenion cofrestru etholiadol. | • Rhwymedigaeth Gyfreithiol | Rhwymedigaeth gyfreithiol ar gais gan gyrff Cofrestru Etholiadol o dan reoliad 23 Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Cymru a Lloegr) 2001 |
| At ddibenion sicrhau achrediad proffesiynol ar gyfer cyrsiau a reoleiddir. | • Buddiant Dilys | Manylion cyswllt, presenoldeb, asesiadau a gwybodaeth am gynnydd, a lleoliad cyflogaeth yn dilyn cwblhau astudiaethau. |
| At ddibenion cynnal cystadlaethau a chynlluniau cydnabod, gwneud dyfarniadau a rhoi gwobrau | • Buddiant Dilys | Buddiant dilys. Mae yna fudd eglur a sefydledig i'r Brifysgol fod yn gallu cynnal cystadlaethau a gwobrwyo rhagoriaeth. |
| Cynnal iechyd ein holl boblogaeth myfyrwyr, drwy fonitro symudiadau myfyrwyr o amgylch campysau'r Brifysgol er mwyn galluogi prosesau Profi, Monitro ac Olrhain effeithiol yn ystod digwyddiadau iechyd byd-eang.<br><br>Adnabod y rhai yr effeithir arnynt oherwydd Sgrinio Iechyd a Hunan-adrodd. | • Rhwymediagaeth Gyfreithiol<br><br>Mae'r Brifysgol o dan rwymedigaeth gyfreithiol i sicrhau iechyd a diogelwch staff, | Cydymffurfio gyda deddfwriaeth iechyd a diogelwch berthnasol ac unrhyw ddeddfwriaeth genedlaethol a gyflwynwyd pe digwydd argyfwng iechyd byd-eang.<br><br>Buddiant dilys er mwyn sicrhau bod y Brifysgol yn ddiogel ac iach |

| | | |
|---|---|---|
| | myfyrwyr ac ymwelwyr a'r rhai yr effeithir arnynt drwy ymgymryd ag ef.<br><br>Y mae'n rhan o fuddiant dilys y Brifysgol (gan sicrhau lles a lleihau'r risg i'r cyhoedd yn ogystal â chyflawni a sicrhau parhad gweithrediadau).<br><br>Mae er budd y cyhoedd. | amgylchedd ar gyfer staff, myfyrwyr ac ymwelwyr. |
| Cynnal cofrestr statws brechu ar gyfer myfyrwyr sy'n gweithio neu sydd ar leoliad yn y GIG a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru. | • Rhwymedigaeth Gyfreithiol | Mae'r gyfraith yn ei gwneud hi'n angenrheidiol i unrhyw un sy'n gweithio neu sydd ar leoliad yn y GIG a Iechyd a Gofal Cymdeithasol i fod wedi eu brechu'n llawn oni bai eu bod wedi eu heithrio'n feddygol. |
| Defnyddio gwybodaeth gyswllt e-bost gartref er mwyn cyfathrebu gyda graddedigion at bwrpas gweinyddu seremonïau graddio. | • Contract<br>• Buddiant Dilys | Nid yw seremonïau graddio yn orfodol ond maent yn rhan o'r profiad prifysgol disgwyliedig i'r rhan fwyaf o fyfyrwyr ac fe'i cynhwysir o fewn y contract myfyriwr. |
| Trosglwyddo manylion myfyrwyr i sefydliadau partner er mwyn galluogi gweinyddu llogi gynau. | • Buddiant Dilys | Nid yw seremonïau yn orfodol, ond maent yn rhan o'r profiad prifysgol disgwyliedig i'r rhan fwyaf o fyfyrwyr ac fe'u cynhwysir o fewn y contract myfyriwr. |
| Datgeliad Prosesu a Gwiriadau Gwahardd fel rhan o weithdrefn geisiadau'r Brifysgol a gofynion mynediad ar gyfer cyrsiau a reoleiddir.<br>. | • Contract<br>• Rhwymedigaeth Gyfreithiol | Ar gyfer rhai cyrsiau astudio penodol, lleoliadau a chyfleoedd gwaith, bydd gwybodaeth ynghylch euogfarnau troseddol a throseddau yn y gorffennol yn cael eu prosesu lle mae hyn yn berthnasol oherwydd eich bod yn gweithio gyda phlant neu oedolion sy'n agored i niwed, a/neu oherwydd gofynion addasrwydd i ymarfer neu addasrwydd i hyfforddi mewn rhai proffesiynau penodol a reoleiddir. |

| | | |
|---|---|---|
| Er mwyn darparu cefnogaeth ffydd, cefnogaeth ysbrydol a chefnogaeth sydd heb fod yn seiliedig ar ffydd i fyfyrwyr drwy Dîm Caplaniaeth y Brifysgol, gan gynnwys cefngoaeth gwasanaethau bugeiliol a gwrando. | • Consent<br>• Rhwymedigaeth Gyfreithiol<br>• Diddordebau Hanfodol | Lle rydych wedi rhoi caniatâd i'ch data personol gael ei brosesu at y dibenion hyn; lle mae'n angenrheidiol i'r Brifysgol gydymffurfio gyda rhwymedigaeth gyfreithiol (e.e. dyletswyddau diogelu ac Atal); lle mae'n angenrheidiol amddiffyn eich diddordebau hanfodol neu ddiddordebau hanfodol person arall. |
| At ddibenion casglu data lle rydych yn methu â bodloni eich rhwymedigaethau ariannol i'r brifysgol (e.e. talu ffïoedd dysgu). | • Contract<br>• Buddiant Dilys | Rheidrwydd cytundebol; buddiant dilys o safbwynt casglu dyledion sy'n ddyledus i Brifysgol Wrecsam. |
| Ar gyfer marcio eich asesiadau ac arholiadau, a chyda thrafodaethau a phenderfyniadau ynghylch dyfarnu marciau a graddau. | • Contract<br>• Tasg Gyhoeddus | Rheidrwydd cytundebol; cyflawni tasg gyhoeddus greiddiol y Brifysgol (h.y. darparu addysgu uwch ac ymchwil). |
| Ar gyfer rheoli ansawdd addysgu a safonau academaidd. Byddwn yn darparu adborth cyffredinol yn seiliedig ar adborth neu werthusiadau rydych wedi'u rhoi mewn perthynas â'ch profiad astudio i staff y Brifysgol sy'n rheoli ac yn darparu cwrs yn seiliedig ar adborth neu werthusiadau o'ch astudiaethau chi gyda golwg ar welliannau sy'n briodol o ran diogelwch i'r cwrs a'r modd y darperir y cwrs. Fel arfer bydd yr wybodaeth yma'n cael ei darparu yn ddienw oni bai eich bod yn dewis darparu eich enw. Bydd data personol yn cael ei anonymeiddio wrth adrodd am y canlyniadau'n fewnol neu'n allanol. | • Contract<br>• Tasg Gyhoeddus | Rheidrwydd cytundebol; cyflawni tasg gyhoeddus greiddiol y Brifysgol (h.y. darparu addysgu uwch ac ymchwil).<br><br>O fewn ein gwasanaethau addysgu, dysgu a chefnogi, rydym yn defnyddio ein data er mwyn sicrhau ein bod yn cynnal safonau academaidd priodol. |
| At bwrpas rheoli gweithdrefnau sy'n gysylltiedig gydag apeliadau academaidd, cwynion a throseddau. Mae hyn yn cynnwys rhannu eich data gyda Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol (OIA) os ydych yn penderfynu cyfeirio unrhyw fater at yr OIA a chyda sefydliadau sy'n gweithredu gwrth-ladrata ar ein rhan (e.e. Turnitin©) | • Contract<br>• Tasg Gyhoeddus | Rheidrwydd cytundebol; cyflawni tasg gyhoeddus greiddiol y Brifysgol (h.y. darparu addysgu uwch ac ymchwil).<br><br>Os ydych yn gwneud apêl academaidd sy'n gysylltiedig ag unrhyw agwedd o'ch cwrs neu os oes pryder eich bod wedi cyflawni trosedd academaidd, byddwn yn prosesu eich data fel y mae'n angenrheidiol er mwyn cymhwyso polisïau a gweithdrefnau Prifysgol Wrecsam mewn perthynas â''r materion hyn a chontract myfyriwr |

| | | |
|---|---|---|
| | | Prifysgol Wrecsam. Mae hyn yn cynnwys prosesu gwybodaeth am y gwaith rydych wedi ymgymryd ag ef ar y cwrs a'ch perfformiad a'ch cynnydd academaidd, gan gynnwys gwybodaeth am farciau a ddyfarnwyd am eich gwaith neu lyfrau arholiad. |
| Ar gyfer rheoli a darparu eich cwrs. Bydd y data a brosesir at y dibenion hyn yn cynnwys ystod eang o wybodaeth rydym yn ei gasglu gennych chi a thrydydd partïon, ac sy'n cael ei chynhyrchu drwy eich cyswllt chi gyda ni. Bydd hyn yn cynnwys gwybodaeth gyswllt, hanes addysg a gwybodaeth am gyflogaeth, manylion eich cwrs, eich cynnydd a'ch perfformiad academaidd. | • Contract<br>• Tasg Gyhoeddus | Rheidrwydd cytundebol; cyflawni tasg gyhoeddus greiddiol y Brifysgol (h.y. darparu addysgu uwch ac ymchwil). |
| Eich darparu gyda'r holl elfennau perthnasol o'n gwasanaethau addysgu, dysgu ac ymchwil craidd yn unol â chontract myfyriwr Prifysgol Wrecsam, a'r cyfleusterau sy'n ffurfio rhan o brofiad creiddiol myfyrwyr Prifysgol Wrecsam, a sicrhau bod gennych fynediad iddynt. Bydd ein prosesu'n cynnwys gwneud trefniadau ar gyfer addysgu, aseiniadau, cyfarfodydd goruchwylio, arholiadau ac elfennau eraill o gynnwys neu ofynion y cwrs a chyfathrebu gyda chi yn eu cylch. | • Contract<br>• Tasg Gyhoeddus | Rheidrwydd cytundebol; cyflawni tasg gyhoeddus greiddiol y Brifysgol (h.y. darparu addysgu uwch ac ymchwil).<br><br>Mae'r prosesu hwn yn angenrheidiol er mwyn eich galluogi i ddatblygu a gwella'n academaidd gyda golwg ar sicrhau'r safon academaidd sy'n angenrheidiol er mwyn cyflawni'r cymhwyster gradd sy'n gysylltiedig gyda'ch cwrs. |
| Os byddwch, wedi i chi gwblhau prosesau Prifysgol Wrecsam, yn penderfynu cyfeirio mater i Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol ar gyfer Addysg Uwch er mwyn penderfynu p'un a yw Prifysgol Wrecsam wedi cydymffurfio gyda'i pholisïau, a'n bod ni angen darparu'r OIA gyda chopïau llawn o'r deunydd a ystyriwyd o dan ein prosesau a bydd hyn yn cynnwys rhannu eich data personol. | • Buddiant Dilys | Angenrheidiol ar gyfer buddiannau dilys a ddilynir gan Brifysgol Wrecsam (h.y. cydymffurfio gyda phroses yr OIA). |
| Ar gyfer prosesu ceisiadau ar gyfer mesurau lliniaru/ystyriaeth arbennig. Byddwn yn prosesu gwybodaeth ynghylch ceisiadau gan fyfyrwyr ar gyfer rhoi ystyriaeth i fesurau lliniaru | • Contract<br>• Tasg Gyhoeddus<br>• Caniatâd | Angenrheidiol ar gyfer gweithredu'r contract rhyngoch chi â Phrifysgol Wrecsam; angenrheidiol ar gyfer gweithredu tasg gyhoeddus greiddiol Prifysgol Wrecsam |

| | | |
|---|---|---|
| amgylchiadau a allai fod yn effeithio ar eu perfformiad academaidd, yn arbennig felly eu gallu i fodloni dyddiadau cau ar gyfer cyflwyno aseiniadau neu ofynion cwrs eraill. | | (h.y. darparu addysg uwch ac ymchwil); rydych yn cytuno i'r prosesu. |
| Eich darparu gyda mynediad at lyfrgell ac adnoddau dysgu sy'n berthnasol i'ch astudiaethau ym Mhrifysgol Wrecsam. | • Contract<br>• Tasg Gyhoeddus | Angenrheidiol ar gyfer gweithredu'r contract rhyngoch chi a Phrifysgol Wrecsam; angenrheidiol ar gyfer gweithredu tasg gyhoeddus greiddiol Prifysgol Wrecsam (h.y. darparu addysg uwch ac ymchwil). |
| At bwrpas gweinyddu bwrsariaethau/ysgoloriaethau a chronfa galedi. Byddwn yn prosesu gwybodaeth ynghylch eich amgylchiadau personol ac amgylchiadau eich teulu, perfformiad academaidd a diddordebau allgwricwlaidd a pherfformiad academaidd a chynnydd lle mae hyn yn berthnasol i asesu eich addasrwydd i dderbyn bwrsariaeth/ysgoloriaeth ymchwil neu ysgoloriaeth neu eich cymhwyster ar gyfer cefnogaeth gan y gronfa galedi.<br><br>Mewn perthynas â'r gronfa galedi, mae'n bosib y byddwn angen prosesu gwybodaeth ynghylch eich sefyllfa ariannol (e.e. cyfriflenni er mwyn pennu eich cymhwystra ar gyfer ariannu). | • Contract<br>• Buddiant Dilys | Angenrheidiol ar gyfer gweithredu'r contract rhyngoch chi a Phrifysgol Wrecsam; angenrheidiol ar gyfer y buddiant dilys a ddilynir gan Briyfsgol Wrecsam (h.y. galluogi mynediad gan fyfyrwyr at gefnogaeth ariannu ychwanegol). |
| Ar gyfer gweinyddu a hwyluso lleoliadau gwaith, prosiectau myfyrwyr a rhaglenni cyfnewid. | • Contract<br>• Tasg Gyhoeddus<br>• Buddiant Dilys | Angenrheidiol ar gyfer gweithredu'r contract rhyngoch chi a Phrifysgol Wrecsam; angenrheidiol ar gyfer y buddiant dilys a ddilynnir gan Brifysgol Wrecsam (h.y. galluogi mynediad gan fyfyrwyr at gyfleoedd sy'n berthnasol i astudiaethau academaidd a/neu gyfleoedd gyrfa yn y dyfodol). |

Mae'n bosib y bydd gwaith prosesu arall yn ychwanegol at yr uchod, er enghraifft, pan rydych yn cael mynediad at ein gwefan sy'n defnyddio cwcis, neu pan rydym yn tynnu lluniau neu fideo o'n digwyddiadau ac yn eu cyhoeddi. Bydd hyn yn cael ei wneud ar sail ein polisïau eraill, a byddwn yn eich hysbysu ynghylch prosesu o'r fath pan fydd y data'n cael ei sicrhau neu cyn gynted ag y gallwn wedi hynny.

Lle mae sail prosesu eich data personol yn rheidrwyd cytundebol ac nad ydych yn ein darparu ni gyda'r data personol sydd ei angen, mae'n bosib na fydd y Brifysgol yn gallu prosesu eich cais neu eich darparu chi gyda'r

rhaglen rydych wedi ymgeisio amdani. Gall methu â darparu data sy'n gysylltiedig ag ymfudo arwain at fethu â sicrhau fisa myfyriwr ar gyfer y myfyrwyr hynny sydd ei angen.

## Pa wybodaeth ydym ni'n ei gael gan drydydd partïon?

Weithiau rydym yn derbyn eich data personol gan drydydd partïon. Mae'r tabl isod yn rhestru pa wybodaeth y gallem ei derbyn ganddynt.

| O BLE RYDYM NI'N CAEL DATA? | |
|---|---|
| **Ffynhonnell** | **Y data y gallem ei dderbyn** |
| UCAS/Centaurus/Asiantaethau Recriwtio | Data ymgeisio, sy'n cynnwys manylion cyswllt a chyrhaeddiad, profiad gwaith, sefydliad blaenorol data cyd-destunol a gwybodaeth am anabledd. |
| Y Swyddfa Gartref (UKVI), Y Swyddfa Dramor a'r Gymanwlad | Eich statws ymfudo. |
| Sefydliad arall a/neu ysgolion uwchradd | Trawsgrifiadau (manylion am raglenni yr ymgymerwyd â hwy neu sy'n cael eu hymgymryd â hwy ar hyn o bryd mewn sefydliad arall, a'ch cyrhaeddiad) |
| Sefydliad arall, ymarferwyr meddygol/iechyd a/neu aelodau o'r teulu. | Gwybodaeth feddygol a hygyrchedd cysylltiedig a gwybodaeth debyg, clirio meddygol iechyd galwedigaethol (rydym ond yn cael y wybodaeth yma gan drydydd partïon os ydych chi'n rhoi caniatâd i ni wneud hynny). |
| Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr | Eich statws ariannol. |
| Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol (OIA) | Manylion am gŵyn sy'n gysylltiedig gyda'r Brifysgol. |
| Eich cyflogwr os ydych yn brentis. | Manylion ynghylch sut rydych chi'n perfformio yn eich prentisiaeth. |
| Sefydliadau partner ac asiantaethau. | Manylion o berfformiad mewn cyrsiau wedi'u darparu'n llawn neu'n rhannol gan sefydliadau addysg eraill ar ran y Brifysgol neu ar gyfer cyrsiau y mae'r Brifysgol yn gweithredu fel y corff dyfarnu perthnasol (e.e. colegau cysylltiedig, campysau dramor, sefydliadau cyfnewid, gan gynnwys rhai oddi allan i'r DU). |
| Canolwyr rydych wedi'u rhoi. | |

| | |
|---|---|
| | Manylion am berfformiad mewn sefydliadau addysgol eraill neu mewn swyddi perthnasol. |
| Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd | Gwybodaeth sy'n gysylltiedig gydag euogfarnau troseddol a rhestrau gwaharddedig. |
| Cyrff achredu proffesiynol perthnasol | Gwybodaeth achrededig. |
| Darparwyr gwasanaeth casglu dyledion a ddefnyddir gan y Brifysgol | Statws a rhwymedigaethau eich ffïoedd, ar gyfer talu neu fethu â thalu eich ffïoedd a'ch manylion cyswllt. |
| Lleoliad gwaith, prosiect myfyriwr a sefydliadau a darparwyr rhaglenni cyfnewid. | Lle mae eich cwrs yn golygu ymgymryd â lleoliad gwaith, prosiect sy'n cael ei ddarparu i gwsmer trydydd parti neu gyfnewid myfyriwr (h.y. lle rydych yn ymgymryd â chyfnod o astudio gyda darparwr addysg ar wahân) bydd angen i'ch data gael ei rannu rhwng Prifysgol Wrecsam a'r sefydliad arall. Rydym yn debygol o rannu eich enw, manylion cyswllt a gwybodaeth ynghylch eich cwrs ym Mhrifysgol Wrecsam a hanes eich addysg a'ch cyflogaeth er mwyn trefnu'r lleoliad gwaith, prosiect neu gyfnewid. Byddwn yn gofyn i'r trydydd parti rannu gwybodaeth gyda ni ynghylch eich presenoldeb a'ch gweithgareddau o fewn y lleoliad, prosiect neu gyfnewid, gan gynnwys gwybodaeth am berfformiad a chynnydd. Bydd y broses hon yn berthnasol i fyfyrwyr dramor sy'n ymgymryd â lleoliad ym Mhrifysgol Wrecsam. |

## Â phwy y byddwn yn ei rannu?

Weithiau gallem fod angen rhannu eich data. Mae'r tabl canlynol yn rhoi enghreifftiau o'r math hwn o rannu data.

| GYDA PHWY YDYM NI'N RHANNU DATA | |
|---|---|
| **Derbynyddion** | **Data y gallem fod yn ei rannu gyda hwy** |
| Ein staff academaidd | Manylion cyswllt gwybodaeth am bresenoldeb a chynnydd, data addysg a chyrhaeddiad, a lle mae'n angenrheidiol ar gyfer rhoi addasiadau rhesymol ar waith a/neu ddarparu cefnogaeth arall ac yn ddibynnol ar eich caniatâd, gwybodaeth am eich iechyd. Gall eich manylion cyswllt hefyd gael eu defnyddio gan y staff yma wrth recriwtio i weithgareddau allgwricwlaidd cysylltiedig, megis cyfleoedd i wirfoddoli. |
| Ein staff gweinyddol a chefnogi | Manylion cyswllt, manylion mewnfudo, gwybodaeth am bresenoldeb a chynnydd, data addysg a chyrhaeddiad, a lle mae'n angenrheidiol ar gyfer rhoi addasiadau rhesymol ar waith a/neu ddarparu cefnogaeth arall ac yn ddibynnol ar eich caniatâd, gwybodaeth am eich iechyd. Gall eich manylion cyswllt hefyd gael eu |

| | |
|---|---|
| | defnyddio gan y staff yma wrth recriwtio i weithgareddau allgwricwlaidd cysylltiedig, megis cyfleoedd i wirfoddoli. |
| Undeb Myfyrwyr Prifysgol Wrecsam | Manylion cyswllt a manylion cofnod myfyrwyr lle maent yn berthnasol er mwyn galluogi cyfleoedd a gynigir i fyfyrwyr gan yr Undeb, lle maent yn angenrheidiol at bwrpas cefnogi ymgysylltu'n effeithlon ac effeithiol gyda'r holl fyfyrwyr cymwys gyda ffwythiannau democrataidd WUSW, i gefnogi cynhwysiant cynrychiolwyr o WUSU (gan gynnwys cynrychiolwyr y myfyrwyr) ar bwyllgorau'r Brifysgol a allai gynnwys trafodaethau ynghylch data neu ystadegau a allai o bosib gynnwys data personau y gellir eu hadnabod (gan gynnwys myfyrwyr eraill), neu ei ddarparu; cefnogi cyfathrebiadau effeithlon ac effeithiol ynghylch gwasanaethau WUSU i'r holl fyfyrwyr; cefnogi gweinyddu pob etholiad, a gweithgaredd yr aelodau; galluogi rheoli a chynllunio gwasanaethau a chyfleusterau WUSU yn effeithiol; cefnogi unrhyw ymchwiliadau, neu faterion sy'n gysylltiedig â diogelwch, lles, diogelu neu atal neu adnabod trosedd myfyriwr er mwyn sicrhau amgylchedd diogel ar gyfer myfyrwyr, staff ac ymwelwyr ac er mwyn cydymffurfio gydag unrhyw rwymedigaeth gyfreithiol y gallai'r naill barti neu'r llall fod yn ddarostyngedig iddi. |
| Sefydliadau partner sy'n cynnig cyrsiau sylfaen | Os ydych chi'n mynegi diddordeb mewn ymgymryd â rhaglen sylfaen neu gyn-feistr cyn symud ymlaen i Brifysgol Wrecsam, mae'n bosib y byddwn yn trosglwyddo eich manylion cyswllt, y cwrs sydd o ddiddordeb i chi a'ch cefndir academaidd i'r sefydliad partner er mwyn iddynt gysylltu ymhellach â chi. |
| Darparwyr cyflogaeth neu leoliad astudio | Eich CV yn ogystal ag unrhyw ofynion hygyrchedd a chymorth a gwybodaeth gysylltiedig. |
| Darparwyr teithiau cyd-gwrigwlaidd a/neu allgwricwlaidd | Gofynion hygyrchedd a chymorth a gwybodaeth gysylltiedig. |
| Eich cyflogwr os ydych yn brentis | Manylion ynghylch sut rydych chi'n perfformio yn y rhan academaidd o'ch prentisiaeth. |
| Cyflogwyr y dyfodol | Gwybodaeth bersonol sy'n gysylltiedig gydag ymddygiad, perfformiad a chyflawniad academaidd, lle gofynnir i ni am eirda. |
| Cyflunwyr tablau cynghrair prifysgolion, er enghraifft *The Economist*, y *Financial Times* a sefydliadau sy'n cyflunio data cyrchfan graddedigion. | Manylion cyswllt a data cyflogaeth neu gyrchfan astudiaethau pellach. |

| | |
|---|---|
| Cyrff swyddogol y mae'n rhaid i'r Brifysgol adrodd iddynt, er enghraifft HESA a Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru a'u hasiantaethau | Mae'r wybodaeth a ddarperir yn angenrheidiol er mwyn cyflawni rhwymedigaethau adrodd y Brifysgol i'r cyrff yma. Gallai hyn gynnwys data categori arbennig. |
| Arholwyr Allanol | Manylion adnabod a phapurau arholiad a chofnodion asesu. |
| Y Swyddfa Gartref (UKVI) | Manylion pasbort, manylion a ffïoedd rhaglen, a manylion tai. |
| Llety trydydd parti/darparwyr tai | Manylion y myfyriwr. |
| Proseswyr data (mewn geiriau eraill trydydd partïon sy'n prosesu data personol ar ein rhan, megis darparwyr meddalwedd) | manylion, cofnodion presenoldeb, manylion cyswllt a manylion cyfrif lle mae ei angen ar gyfer mewngofnodi un waith. |
| Yr Awdurdod Lleol | Manylion cyswllt. |
| Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr | Manylion cyswllt. |
| Partneriaid Ymchwil | Manylion cyswllt, gwybodaeth presenoldeb a chynnydd |
| Cyrff rheolaethol ac achredu, os ydych ar raglen wedi'i hachredu'n broffesiynol | Manylion cyswllt, gwybodaeth am bresenoldeb, asesiadau a chynnydd |
| Cyrff ariannu, darparwyr ysgoloriaethau a bwrsariaethau | Manylion cyswllt, gwybodaeth am bresenoldeb a chynnydd |
| Asiantaethau'r llywodraeth, er enghraifft HMRC (dim ond ar gais a lle mae sail gyfreithiol ar gyfer gwneud hynny) | Manylion cyswllt. |
| Yr heddlu ac asiantaethau gweithredu'r gyfraith (dim ond ar gais a | Gwybodaeth wedi'i ddarparu yn ôl yr angen er mwyn cyflawni rhwymedigaethau cyfreithiol y Brifysgol o safbwynt atal tân ac adnabod trosedd. |

| | |
|---|---|
| lle mae sail gyfreithiol dros wneud hynny) | |
| Profi ac Olrhain y GIG a PHE (neu'r hyn sydd wedi dod yn ei le) | Mae'n bosib y byddwn yn rhannu eich manylion cyswllt a gwybodaeth ynghylch eich symudiadau o amgylch Campysau'r Brifysgol er mwyn iddynt adnabod unigolion y gallech fod wedi bod mewn cysylltiad â hwy neu a allai fod wedi dod i gysylltiad gyda chi. Gwneir hyn er mwyn iddynt gysylltu gydag unigolion lle mae angen hunanynysu. |
| Sefydliadau partner ac asiantaethau | Manylion o berfformiad mewn cyrsiau wedi'u darparu'n llawn neu'n rhannol gan sefydliadau addysg eraill ar ran y Brifysgol neu ar gyfer cyrsiau y mae'r Brifysgol yn gweithredu fel y corff dyfarnu perthnasol (e.e. colegau cysylltiedig, campysau dramor, sefydliadau cyfnewid, gan gynnwys rhai oddi allan i'r DU). |

## SUT YDYM NI'N PROSESU GWYBODAETH SY'N ARBENNIG O SENSITIF

| Diben | Sail Gyfreithiol | Cyfiawnhad |
|---|---|---|
| Rydym yn defnyddio gwybodaeth er mwyn cydymffurfio gyda'n rhwymedigaethau adrodd statudol i gyrff swyddogol er enghraifft HESA a Chyngor Ariannu Addysg Uwch a'u hasiantaethau | • Rhwymedigaeth Gyfreithiol<br>• Budd y Cyhoedd<br>• Buddiant Dilys<br><br>Mae'n angenrheidiol at ddibenion ymchwil a dibenion ystadegol o dan Erthygl 9(2)(j) UK GDPR. | Rydym yn darparu peth o'r wybodaeth o dan y fframwaith cyfreithiol yn Neddf Addysg Uwch (Cymru) 2015 neu ar gyfer tasg sydd o fudd i'r cyhoedd, neu oherwydd buddiant dilys, a bob amser at ddibenion ymchwil ac ystadegau. Nid ydym yn gofyn am eich caniâd i ddarparu'r wybodaeth yma i HESA. Nid yw'r prosesu hwn ar sail caniatâd, unwaith rydych wedi rhoi'r wybodaeth yma i ni. Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu bryderon ynghylch y modd y mae HESA'n defnyddio eich gwybodaeth sydd heb gael eu hateb yn hysbysiad preifatrwydd HESA, dylech gysylltu gyda HESA'n uniongyrchol gan ddefnyddio'r manylion cyswllt a ddarperir yn yr hysbysiad preifatrwydd hwn<br><br>Yn ogystal â'r adroddiad data blynyddol i HESA, rydym hefyd, gyda'ch caniatâd, yn darparu eich enw, manylion cwrs a manylion cyswllt i'r sefydliad sy'n gweithredu ar ran HEFCW i gynnal yr Arolwg Cenedlaethol Myfyrwyr. Mae hwn yn arolwg blynyddol o farn myfyrwyr addysg uwch ynghylch eu cwrs a'u darparwr addysg uwch, a ddefnyddir i greu adborth a gyhoeddir a gosod cyfraddau cyrsiau a darparwyr, ac |

| | | |
|---|---|---|
| | | yn gyffredinol, gyrru gwelliannau mewn darpariaeth addysg uwch. Y sefydliad sy'n gweithredu ar ran HESA i roi'r arolwg ar waith sy'n cael ei alw ar hyn o bryd yn Arolwg Deilliannau Graddedigion. |
| Lle mae eich cwrs angen i chi ymgymryd â lleoliadau gwaith o fewn lleoliadau gofal iechyd, mae'n angenrheidiol i chi gael asesiad iechyd galwedigaethol er mwyn adnabod unrhyw risgiau neu broblemau a allai effeithio ar eich gallu i gwblhau'r lleoliad ac unrhyw anghenion sydd gennych ar gyfer cefnogaeth benodol yn eich lleoliad, e.e. oherwydd cyflyrau iechyd neu anabledd. | • Cyflogaeth, nawdd cymdeithasol a chyfraith amddiffyn<br>• Tasg Gyhoeddus | Angenrheidiol at ddibenion gofal iechyd, gan gynnwys asesu capasiti gweithio, diagnosis meddygol, darparu triniaeth neu reoli trefniadau gofal iechyd. Angenrheidiol er mwyn amddiffyn eich diddordebau hanfodol neu rai person arall h.y. atal neu reoli risgiau sylweddol o niwed. Angenrheidiol at ddibenion budd cyhoeddus sylweddol: diogelu pobl sy'n agored i niwed |
| Os ydych yn ein darparu ni gyda gwybodaeth am eich amgylchiadau personol, gan gynnwys gwybodaeth sy'n gysylltiedig gydag iechyd neu anabledd, ar sail ei bod yn berthnasol i unrhyw apêl, cwyn neu honiad, yna byddwn yn prosesu'r wybodaeth fel mae'n angenrheidiol er mwyn cwblhau'r broses berthnasol ym Mhrifysgol Wrecsam a'i rhannu gyda'r OIA os ydych chi'n cyfeirio'r mater iddynt hwy. | • Caniatâd Penodol | Ni fyddwn ond yn prosesu'r wybodaeth gyda'ch caniatâd penodol. |
| At bwrpas prosesu ceisiadau ar gyfer mesurau lliniaru/ystyriaeth arbennig a bod y rheswm am y cais yn gysylltiedig gyda data categori arbennig megis cyflyrau iechyd neu anableddau. | • Caniatâd Penodol | Byddwn yn prosesu hwn fel y mae'n angenrheidiol ar gyfer pennu eich cais a rhoi unrhyw drefniadau arbennig y cytunwyd arnynt ar waith. |
| Lle rydych yn darparu gwybodaeth sy'n gysylltiedig â chyflyrau iechyd neu anabledd er mwyn cefnogi cais am arian o gronfa galedi neu gefnogaeth ariannol arall | • Caniatâd Penodol | Byddwn yn prosesu'r wybodaeth hon at bwrpas ystyried eich cais a gweinyddu taliadau. |

## Pryd ydym ni'n trosglwyddo data dramor (oddi allan i'r Deyrnas Unedig)?

Fel y dangosir yn y tabl uchod, byddwn yn rhannu eich data gyda'n darparwr lleoliad, a allai fod oddi allan i'r DU, ar sail bod trosglwyddiad o'r fath yn angenrheidiol ar gyfer gweithredu ein contract gyda chi.

Mae Prifysgol Wrecsam hefyd yn gweithio gyda chyflenwyr a phartneriaid a allai ddefnyddio'r technolegau'r cwmwl a/neu dechnolegau sy'n cael eu cynnal.

Rydym yn ymgymryd â diwydrwydd dyladwy ar ein partneriaid, sicrhau bod contractau addas yn eu lle a bod y partneriaid yma'n cydymffurfio gydag achrediadau priodol.

Lle bynnag y bydd y trosglwyddiadau yma'n digwydd, bydd gan y Brifysgol gontract priodol yn ei le ac mae yna reolau caeth ynghylch cyfrinachedd a diogelwch eich gwybodaeth sydd yn eu lle er mwyn ei diogelu.

**Am ba mor hir ydym ni'n cadw'ch data?**

Fel arfer bydd data personol sy'n gysylltiedig â cheisiadau yn cael ei gadw am oddeutu blwyddyn.

Caiff gwybodaeth gytundebol (er enghraifft manylion am eich presenoldeb, perfformiad a manylion cyswllt) ei chadw am chwe blynedd wedi i chi gwblhau eich rhaglen neu ddirwyn eich rhaglen i ben fel arall. Mae cyfnodau cadw fel arfer yn gysylltiedig gyda chyfnodau cyfyngiad cyfreithiol (statud y cyfyngiadau). Mae amserlen cadw cofnodion y Brifysgol ar gael ar-lein.

## Eich hawliau diogelu data

O dan gyfraith gwarchod data, mae gennych hawliau gan gynnwys:

**Eich hawl i fynediad** - Mae gennych yr hawl i ofyn i ni am gopïau o'ch gwybodaeth bersonol.

**Eich hawl i gywiro** - Mae gennych yr hawl i ofyn i ni gywiro gwybodaeth bersonol os ydych chi'n meddwl ei fod yn anghywir. Mae gennych hefyd yr hawl i ofyn inni gwblhau gwybodaeth os ydych chi'n meddwl ei bod yn anghyflawn.

**Eich hawl i ddileu** - Mae gennych yr hawl i ofyn i ni gywiro gwybodaeth bersonol os ydych chi'n meddwl ei fod yn anghywir.

**Eich hawl i gyfyngu ar brosesu** - Mae gennych yr hawl i ofyn i ni gywiro gwybodaeth bersonol os ydych chi'n meddwl ei fod yn anghywir.

**Eich hawl i gyfyngu ar brosesu** - Mae gennych yr hawl i ofyn i ni gywiro gwybodaeth bersonol os ydych chi'n meddwl ei fod yn anghywir.

**Eich hawl i hygludedd data** - Mae gennych yr hawl i ofyn i ni drosglwyddo'r wybodaeth bersonol rydych chi'n ei rhoi i ni i sefydliad arall, neu i chi, o dan rai amgylchiadau penodol.

Nid oes gofyn i chi dalu unrhyw gost am arfer eich hawliau. Os ydych chi'n gwneud cais, mae gennych chi fis i ymateb i chi.

**Cysylltwch â ni drwy'r Swyddog Gwarchod Data, Prifysgol Wrecsam, Plas Coch, Ffordd yr Wyddgrug, Wrecsam, LL11 2AW neu dpo@wrexham.ac.uk os ydych chi'n dymuno gwneud cais.**

## Sut i wneud cwyn

Os oes gennych chi unrhyw bryderon ynghylch ein defnydd o'ch gwybodaeth bersonol, gallwch wneud cwyn i ni drwy'r Swyddog Gwarchod Data, Prifysgol Wrecsam, Plas Coch, Ffordd yr Wyddgrug, Wrecsam, LL11 2AW neu dpo@wrexham.ac.uk.

Gallwch hefyd gwyno i'r ICO os ydych yn anhapus gyda sut rydym wedi defnyddio eich data.

Cyfeiriad yr ICO:
Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth,
Wycliffe House
Water Lane

Prifysgol Wrecsam
Wrexham University

Wilmslow
Cheshire SK9
5AF

Rhif ffôn llinell gymorth: 0303 123
1113 Gwefan ICO:
https://www.ico.org.uk

## Sut allaf i gael mwy o wybodaeth?

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau ynghylch y polisi hwn, cysylltwch os gwelwch yn dda gyda dpo@wrexham.ac.uk .

Byddwn yn adolygu'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn rheolaidd a byddwn yn rhannu unrhyw ddiweddariadau ar y dudalen we hon.

Cafodd yr hysbysiad preifatrwydd hwn ei ddiweddaru ddiwethaf ar 17/03/2026